



3D Eagle Wing  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaeth 0303 444 5000  
e-bost: [GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk](mailto:GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk)

---

At bartïon a buddiant

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010072

Dyddiad: 27 Mehefin 2016

---

Annwyl Syr/Fadam

**A87 Deddf Cynllunio 2008 a Rheol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith  
(Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y diwygiwyd)<sup>1</sup> – Rheol 17**

**Cais gan Snowdonia Pumped Hydro Limited am Orchymyn yn rhoi Caniatâd  
Datblygu ar gyfer Cynllun Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy**

**Penderfyniad ar gais yr ymgeisydd i ddiwygio'r Gorchymyn Caniatâd  
Datblygu (DCO) a cais am wybodaeth pellach**

Ysgrifennaf ynghylch y cais uchod, i gofnodi penderfyniad drefniadol a wnaed gennyf o dan a87(1) o Ddeddf Cynllunio 2008. Rwyf wedi penderfynu wneud cais am wybodaeth pellach o dan Rheol 17 Rheolau Seilwaith Cynllunio (Gweithdrefn Archwilio) 2010.

*Mae'r paragraff isod yn esbonio bod y llythyr hwn ar gael yn Saesneg:*

This letter is available in English on our website and a copy can be made available on request:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010072-001341>

**Arholiad o'r Cais**

Ar 21 Mehefin 2016, ar gyfer Dyddiad Cau 5, gofynodd y'r ymgeisydd i'r DCO gael ei wneud mewn ffurf arall heblaw'r un y gwnaed cais amdani [REP5-028]. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn lleihau maint y pwerau caffael gorfodol y gofynnwyd amdanynt ar ôl i'r ymgeisydd gwblhau cytundebau gwirfoddol i gaffael buddiannau thirfeddiannwr mewn llain o dir. Mae'r ymgeisydd yn cynnig tynnu'r buddiannau hynny o'r Llyfr Cyfeirio a dileu unrhyw gyfeiriadau penodol at y llain hyn o'r DCO.

---

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/103/contents/made>

Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno dogfennau amrywiol ar gyfer Dyddiad Cau 5 [REP5-028 to REP5-032] i ategu ei gais, sydd ar gael ar ein gwefan ac wedi eu rhestru yn Llyfrgell yr Archwiliad. Rwyf wedi gwneud penderfyniad o dan a87(1) i dderbyn y holl ddogfennau hyn i'r archwiliad.

Nid yw'r diwygiadau hyn, yn fy marn i, yn gyfystyr â newid sylweddol i'r cynllun. Fodd bynnag, er mwyn galluogi bod unrhyw un a allai o bosibl gael eu heffeithio gan y diwygiadau hyn yn cael cyfle teg i leisio eu barn ac a'i fod yn cael ei gymryd i ystyriaeth yn briodol, gall holl bartion a buddiant gyflwyno sylwadau ar y materion yma erbyn Dyddiad Cau 6. Byddaf yn archwilio'r cais ac yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y sail hon. Maes o law, gallai'r Ysgrifennydd Gwladol dderbyn, addasu neu wrthod y penderfyniad hwn.

### **Rheol 17 Cais am Ragor o Wybodaeth**

O ganlyn y wybodaeth uchod, rwy'n gofyn fod sylwadau ar y dogfennau derbyniwyd gan yr ymgeisydd ar gyfer Dyddiad Cau 5 yn cael eu cyflwyno erbyn **Dyddiad Cau 6; 12 canol dydd, ddydd Llun 4 Gorffennaf 2016.**

Yr eiddoch yn gywir

*Stuart Cowperthwaite*

Stuart Cowperthwaite  
Awdurdod Archwilio

Gellir rhoi cyngor ar wneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau ynglŷn â chais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfwerth â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a'ch cyngor proffesiynol eich hun fel y bo'r angen.

Bydd cofnod o'r cyngor a roddir yn cael ei gofnodi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Bydd preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall yn cael ei ddiogelu yn unol â'n Siarter Wybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.